

DOLEN Y TAB – 31

20–21 TACHWEDD 2020

OEDFA SUL 22 TACHWEDD

A hithau'n Sul Crist y Brenin, byddwn yn ystyried arwyddocâd hynny i ni yn y Tabernacl yng nghwmni Wyn Rees, Ann ac Emlyn Davies ac Eleri Huws. Byddwn hefyd yn mynd ar daith drwy ddilyn hynt Nant y Cesair o'i tharddiad ar lethrau'r Garth i Fae Caerdydd. Gobeithio y medrwyd chi ymuno â ni.

OEDFA SUL NESAF

29 Yng nghwmni'r Parchedig Gethin Rhys.

Oedfaon Mis Rhagfyr

6 Oedfa rithiol yng ngofal Cylch Llantrisant.

13 Oedfa rithiol Plant y Capel.

20 Oedfa Nadoligaidd amrywiol yng ngofal nifer o oedolion y Tabernacl.*

27 Hoe fach ar-lein, cyn y flwyddyn newydd.

*Ar gyfer 20 Rhagfyr, gofynnir i chi anfon deunydd at Geraint Rees, geraintrees@hotmail.com. Fel arall, gellir anfon ffilm fer wedi ei recordio mewn fformat *landscape* ar y ffôn a'i hanfon trwy *Whatsapp* i 07816 341527 (rhaid iddi fod yn ddim mwy na 6 munud o hyd ar *Whatsapp*). Wedyn, gallwn gydlyn popeth i'w troi'n oedfa amrywiol. Gan gobeithio y cawn stôr o storïau, gweddiâu, carolau, meddyliau a hanesion – plis dewch â'ch cyfraniadau'n llw!

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Ymunwch â'r Parchedig Gethin Rhys, Cytûn, fydd hefyd yn trafod 'Crist y Brenin'. (Ar gael ar wefan yr Undeb annibynwyr.org a *YouTube*)

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng nghwmni Dylan Williams, Porthmadog

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

CODI TUA £4 MILIWN

Bydd llawer ohonoch yn gallu cofio'n ôl i ddechrau Mai pan oedd cryn bryder pa mor lwyddiannus



fyddai'r dasg o godi arian yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Yn sgil argyfwng Covid-19 bu'n rhaid newid trefniadau arferol yr wythnos gan nad oedd modd casglu o dŷ i dŷ na chynnal digwyddiadau megis boreau coffi. Er hynny, fe lansiodd Cymorth Cristnogol apêl frys yn ystod yr wythnos mewn ymgais i leihau effaith y Coronavirus ar rai o gymunedau mwyaf bregus y byd, sy'n wynebu prinder dŵr, bwyd a gofal iechyd, ac yn byw gyda chyflyrau iechyd bygythiol fel HIV.

Yma yn y Tabernacl fe lansiwyd apêl ymhlith yr aelodau a chyfeillion a llwyddwyd i godi £1,625 – swm anrhydeddus iawn o gofio bod yr aelodau wedi cyfrannu'n hael iawn hefyd tuag at Apêl y Llifogydd a'r banc bwyd lleol ychydig wythnosau ynghynt. Yn gynharach yr wythnos hon derbyniodd John Llew, oedd yn cydlynu apêl WCC ar ein rhan, lythyr gan Cymorth Cristnogol i ddiolch am lwyddiant ein hymdrechion i godi arian dan amodau mor anodd, ac am ein consŷrn dros y rhai mwyaf diymgeledd yn ein plith. Cyhoeddwyd hefyd fod y cyfanswm a godwyd ar draws gwledydd Prydain yn agos i **£4 miliwn**.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLŶNYDDOL

11 o'r gloch fore Sul 29 Tachwedd

Cynhelir y cyfarfod eleni dros *Zoom*

Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch ymuno â'r cyfarfod yn ystod y dyddiau nesaf.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpenqwert@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.

Y GWEITHGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL

- HELPU POBL DDIGARTREF

Ar ôl trafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, mae John Llew wedi cael ar ddeall bod cyllid ganddyn nhw i sicrhau cartref, dillad a nwyddau i'r bobl ifanc fydd yn derbyn ein talebau, ond maen nhw'n bryderus iawn am sefyllfa llawer o'r bobl ddigartref yn yr ardal a byddent yn falch o gael ein help. Bydd John yn cydlynu apêl am ddillad, dillad gwely a nwyddau hylendid ar eu cyfer, ac yn eu casglu yn y capel.

Mae modd i chi ddod â'ch cyfraniadau i'r capel ar foreau lau rhwng 10 a 12 o'r gloch.

- BWYD A DANTEITHION NADOLIG

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn un o elusennau'r Tabernacl eleni, ac fe fyddan nhw'n derbyn cyfraniad ar ddiwedd y flwyddyn. O drafod gyda'r elusen, mae John Llew yn deall y bydden nhw hefyd yn croesawu bwydydd a danteithion Nadoligaidd (bwyd sych, bisgedi, siocledi ac ati), heb anghofio y bydd llawer o blant yn eu llochesi dros y Nadolig.

Mae croeso i chi ddod â chyfraniadau i'r capel ar foreau lau rhwng 10–12, yr un pryd ag y cesglir nwyddau a dillad i bobl ddigartref. Dyw Cymorth i Ferched ddim yn cael derbyn nwyddau eraill oherwydd Covid-19, gan y byddai heintio yn eu gorfodi i gau'r llochesi. Ymddiheuriadau am eich llethu â cheisiadau, ond fe fyddai'n resyn colli cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl sydd mewn sefyllfa amhosib o anodd.

- TALEBAU NADOLIG

Mae hi'n amser unwaith eto i ni feddwl am helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn dod ag ychydig o ysbryd y Nadolig i'w bywydau, yn enwedig â'r pandemig yn gwneud eu hamgylchiadau'n anoddach.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn poeni hefyd am anrhegion Nadolig i blant bach anghenus sy dan eu gofal, gan na allan nhw gasglu teganau fel y cyfryw oherwydd perygl Covid-19. Er na allwn ni gynnal casgliad teganau, fe allwn ledaenu ein casgliad talebau er mwyn helpu i ariannu ymgyrch prynu teganau y Gwasanaethau Cymdeithasol.

O ganlyniad, bydd ein casgliad talebau ni yn helpu plant bach yn ogystal â phobl ifanc eleni, fel ein bod yn gwneud ein gorau i gynnal ein lefel arferol o gymorth yr adeg hon o'r flwyddyn, yng ngwir ystyr y Nadolig. Bydd y casgliad yn weithredol tan ddiwedd mis Tachwedd. Dyma'r manylion ar gyfer cyfrannu:

Anfon siec yn daladwy i **Capel y Tabernacl Cyf.** at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU gyda nodyn yn cynnwys eich enw a 'Talebau Nadolig'.

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72 Rhif cyfrif 03607499 gan gynnwys eich enw a nodi 'Talebau Nadolig'.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich haelioni dros y misoedd diwethaf.

GWLAD YR ADDEWID?



Yn ystod wythnos pan dorrwyd record byd am y gwerthiant uchaf i lyfr ffeithiol Saesneg ar ddiwrnod ei gyhoeddi, hoffwn dynnu sylw at deit arall, un a gyfieithwyd i'r Saesneg yn ddiweddar. Ond cyn troi at y gyfrol honno carwn ddweud ychydig am gyfrol hunangofiannol 700 tudalen Barak Obama, *A Promised Land*, a werthodd dros 887,000 o gopiâu pan welodd olau dydd am y tro cyntaf ddydd Mercher diwethaf. Gyda llaw, yn dynn ar ei sodlau yn y ras am y gwerthiant cyflymaf uchaf, mae llyfr gan aelod arall o'i deulu, sef *Becoming* gan Michelle Obama, a werthodd 720,000 copi o fewn diwrnod.

Wna i ddim mentro mynegi barn ar ansawdd ei gyfrol, ond roedd diddordeb mawr gennyf mewn un sylw a welais ar ei gynnwys mewn adolygiad. Ynndo ceir disgrifiad gan Obama o'i lencyndod di-gyfeiriad cyn ddatgelu'r hyn a wedd-newidiodd ei fywyd, sef llyfrau – ac yn fwy penodol y llond côl o lyfrau ail-law a brynodd mewn ffair sborion yn Honolulu. Wrth ddarllen llyfrau amrywiol y daeth o hyd i'r hyn oedd ar goll yn ei fywyd, sef cwmniâeth, cysur ac arweiniad i wynebu'r dyfodol.

Tra bo'r enw Obama ynndo'i hun wedi bod yn fwy na digon i sicrhau gwerthiant syfrdanol i'w hunangofiant, go brin bod fawr neb yn gyfarwydd ag enwau Georges Salines ac Azdyne Amimour, cyd-awduron *We still have words*, cyfrol a gyfieithwyd o'r Ffrangeg gwreiddiol ac a gyhoeddir yn Saesneg cyn diwedd y mis.

Erbyn heddiw, mae cyfeillgarwch agos wedi datblygu rhwng Salines ac Amimour, ond y digwyddiad ddaeth â'r ddau at ei gilydd oedd ymosodiad treisgar yn Neuadd Gyngerdd Bataclan, Paris ar 13 Tachwedd 2015. Yn yr ymosodiad hwnnw lladdwyd Lola, merch Salines, gan y terfysgwyr tra oedd Samy, mab Amimour, oedd yn un o'r ymosodwyr, wedi chwythu ei hun i fyny yn y fan a'r lle.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, fe gysylltodd tad Samy â thad Lola i holi a oedd modd iddynt gwrdd. Serch ei fod yn anghysurus wrth ddychmygu dod wyneb-yn-wyneb â thad un a allai fod wedi lladd ei ferch, fe gytunodd Salines i'w gyfarfod. Cafodd ei gyffwrdd wrth wrando ar Salines yn adrodd hanes ei fywyd, a gwelodd yn syth pa mor ddyngarol a goddefgar oedd tad Samy. I Salines, roedd y sgysiaau a gawsant yn fath o therapi ac yn gyfle 'i mi gndemnio trais mor daer â phosib'. Ffrwyth eu sgysiaau a'r ddealltwriaeth a ddatblygodd rhyngddynt yw craidd y llyfr, a'u hawydd i ddangos peryglon dinistriol casineb ac anoddefgarwch, ond mae'r llyfr hefyd yn dyrchafu'r gallu i faddau.

Does ond gobeithio y caiff y profiad o ddarllen y llyfr ysbrydoledig hwn yr un effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ddaw ar ei draws ag y cafodd y llyfrau a brynwyd gan Obama mewn ffair sborion yn Honolulu hanner can flynedd yn ôl.

